


C.Rh.A
P.T.A

## Diolch yn fawr

Hoffwn ddiolch yn fawr i aelodau'r G.Rh.A, i bawb a gefnogodd gyda'r paratoadau ac i bawb a fynychodd y Ffair Nadolig neithiwr. Cafwyd noson lwyddiannus iawn gyda gwên ar wynebau'r plant wrth berfformio, chwarae a bwyta!
Gwnaethpwyd elw o £1,748.38 tuag at goffrau'r Gymdeithas. Cyfanswm gwych iawn!

## *Thank you*

*I would like to give a big thank you to the PTA members, to everyone who helped with the preparations, and to everyone who attended last night's Christmas Fair. We had a very successful evening with smiles on the children's faces as they performed, played and ate!*
*A profit of £1,748.38 was made towards the Association's funds. A really fantastic total!*

---

03/12/2025

## Jingls yn y Jambori

Mae'r Urdd a'r Siarter Iaith yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu'r Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 i weithgaredd arbennig Jingls yn y Jambori wythnos nesaf! Bydd Jingls yn y Jambori eleni yn cael ei arwain gan neb llai na Sam Ebenezer, canwr a pherfformiwr o ardal Aberystwyth sydd bellach yn serennu ar lwyfan y West End yn y sioe *Choir of Man*. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £2 tuag at y digwyddiad hwn drwy eich ParentPay.

## *Jingles at the Jambori*

*The Urdd and the Language Charter are very much looking forward to welcoming the Nursery, Reception, Year 1 and Year 2 pupils to a special "Jingles at the Jambori" activity next week! This year's Jingles at the Jambori will be led by none other than Sam Ebenezer, a singer and performer from the Aberystwyth area who is now starring on the West End stage in the show 'Choir of Man'. We kindly ask for a £2 contribution towards this activity through your ParentPay.*

---

## Ffonau clyfar – Smartphone Free Childhood

Disgwyliwch lythyr arall gen i ddydd Llun yn tynnu sylw at hyn yn benodol. Trafodwyd hyn yn ein Cyfarfod Blynyddol o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ddiwedd Medi, ac mae criw o rieni'r ysgol yn rhan o'r grŵp lleol.
Yn fy llythyr byddaf yn rhannu gwybodaeth, dolenni a phosteri er eich sylw.
Cadwch lygad mâs amdano os gwelwch yn dda.

## *Smartphone Free Childhood*

*Expect another letter from me on Monday drawing specific attention to this. This was discussed at our Parents and Teachers Association Annual Meeting at the end of September, and a group of school parents are part of the local group.*
*In my letter, I will be sharing information, links and posters for your attention.*
*Please keep an eye out for it.*

---

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram – Ysgol Gymraeg


Instagram – C.Rh.A

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – P.T.A




## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r 🖰 Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the 🖰 Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

### Dyddiadau pwysig nesaf:

- Cyngerdd Nadolig : Rhagfyr 11eg
- Diwrnod olaf y tymor hwn : Rhagfyr 19eg
- Diwrnod Cau H.M.S : Ionawr 5ed 2026

### *Upcoming mportant dates:*

- *Christmas Concert : December 11th*
- *Last day of this term : December 19th*
- *I.N.S.E.T Closure day : January 5th 2026*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**28/11/2025**
🖰 www.ysgolgymraeg.cymru







Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Digwyddiad Teganau a Dillad Plant
16/12/2025
10yb - 2yp
Nyth Ni, Canolfan yr Eos, Penparcau
Gofynnwn yn garedig am roddion ail-law o deganau a dillad glan ac o ansawdd da.
Dewch a nhw i Ganolfan deuluol Penparcau neu Nyth ni erbyn y 12.12.25.Neu gysylltwch â Jo-Alice 07891321778 i drefnu man casglu gwahannol
Yna, ar 16.12.25 dewch draw i Nyth Ni, Penparcau i gymryd beth sydd angen arnoch o'r holl roddion.
Does dim rhaid i chi ddod a rhywbeth er mwyn cymryd rhywbeth.


Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Children's Clothes and Toy Event
16/12/2025
10am - 2pm
Nyth Ni, Canolfan yr Eos, Penparcau
Clean and good quality toys and clothes to be donated to Penparcau Family Centre by 12/12/25 or contact Jo-Alice on 07891321778
contact to arrange a differnet drop off point
Then come along on the 16/12/25 and take what you need!
No need to bring something to take something!